

## Wele'n sefyll rhwng y myrtwydd

---

---

### Caneuon Ffydd: Rhif 319

---

---

Wele'n sefyll rhwng y myrtwydd  
wrthrych teilwng o'm holl fryd,  
er mai o ran yr wy'n adnabod  
ei fod uwchlaw gwrthrychau'r byd:  
henffych fore  
y caf ei weled fel y mae.

Rhosyn Saron yw ei enw,  
gwyn a gwridog, teg o bryd;  
ar ddeng mil y mae'n rhagori  
o wrthrychau penna'r byd:  
ffrind pechadur,  
dyma ei beilot ar y môr.

Beth sydd imi mwy a wnelwyf  
ag eilunod gwael y llawr?  
Tystio 'rwyf nad yw eu cwmni  
i'w gystadlu â'm Iesu mawr:  
O am aros  
yn ei gariad ddyddiau f'oes.

ANN GRIFFITHS, 1776–1805

### MYFYRDOD

Dwn i ddim beth yw eich darlun chi o berson duwiol? Ydych chi'n cysylltu y gair 'duwiol' â'r gair 'sych'? Efallai eich bod wedi meithrin y syniad mai person sydd yn peidio â gwneud llawer o bethau yw person duwiol: peidio priodi, peidio gwisgo dillad crand, peidio yfed, peidio rhegi, peidio smocio! Ond pethau allanol yw'r rheiny, pethau y gallwch chi eu mesur a rhoi eich hyd a'ch lled arnyn nhw.

Agwedd yw duwioldeb, ac fe welwn yr agwedd hon yn glir iawn yng ngwaith pobl fel Ann Griffiths, agwedd tuag at Dduw ei hunan. Nid yw a wnelo dim ag ymddangosiad allanol, oherwydd, fel y cofiwn yn hanes Dafydd, y bugail o fachgen a ddaeth yn frenin: 'Yr hyn sydd yn y golwg a wêl meidrolyn, ond y mae'r

Arglwydd yn gweld beth sydd yn y galon' (1 Sam. 16:7).

Mae person duwiol yn cymryd Duw o ddfrif, yn hoelio'i sylw arno ef ac ar neb arall, yn ymwybodol o bresenoldeb Duw yn ei fywyd ac yn dilyn ei arweiniad ym mhob peth gan fod yn gwbl ufudd iddo. Gall fod yn hen neu'n ifanc, yn gyfoethog neu'n dlawd, yn perthyn i ba bynnag hil neu liw neu ddiwylliant. Merch ifanc o Gymraes oedd Ann ac yn chwech ar hugain oed pan luniodd yr emyn hwn ym 1802, ond roedd ganddi eisoes 'wrthrych teilwng o'm *holl fryd*' yn Iesu Grist ei Harglwydd.

Cân i'r 'gwrthrych' teilwng hwn sydd yma. Sylweddola fel Paul yntau (1 Cor. 13:12, BWM) mai 'o ran' yn unig yr oedd hi'n ei adnabod, ond nid yw hynny'n ei rhwystro rhag rhoi ei holl fryd arno, gan ddisgwyl am y bore hyfryd hwnnw y caiff ei weld 'wyneb yn wyneb', neu fel yn ei geiriau ei hun:

henffych fore  
y caf ei weled fel y mae.

Mae'r delweddau a geir o'i Harglwydd yn rhai cyfoethog ac ysgrythurol, wrth gwrs: y gŵr sy'n 'sefyll rhwng y myrtwydd' (Sech. 1:8); 'Rhosyn Saron' (Caniad Solomon 2:1); 'gwyn a gwridog' (Caniad Solomon 5:10). Rhyfedd yw gweld merch ifanc o berfedd Sir Drefaldwyn na welodd hi erioed fôr yn ei bywyd, mae'n debyg, yn sôn am 'beilot ar y môr', ond sôn y mae hi am y môr yn nhermau'r peilot neu'r capten, ac fe gofiwn, ymysg hanesion eraill, am Iesu yn dod at ei ddisgyblion gan 'gerdded ar y môr' (Mc. 6:48). Fe sylla'n ddyfal ac yn ddiffino ar yr Arglwydd yn ei wahanol ddelweddau ac mae Cristion sydd yn gwneud hynny, gan ymlonyddu o'i flaen, yn dod yn ddrych y gwelir tebygrwydd Iesu ynddo. Caiff delw'r gwrthrych ei argraffu ar y syllwr, ac wrth 'edrych, fel mewn drych, ar ogoniant yr Arglwydd [cawn] ein trawsffurfio o ogoniant i ogoniant, yn wir lun ohono ef' (2 Cor. 3:18).

Treuliodd Ann ei hamser yn helaeth yng nghwmni ei 'gwrthrych teilwng' mewn gweddi, a pho fwyaf y gwnawn ni hynny, tebyca'n y byd y down ni iddo. Nid ceisio duwioldeb a wnaeth, ond ceisio Duw, ei wasanaethu, rhyfeddu ato ac ymgolli ynddo wrth roi ei holl fryd arno.

## **GWEDDI**

O Dad, maddau i mi fod cymaint o'm hamser yn cael ei dreulio yn ymgolli mewn pethau sydd yn cyfeirio fy sylw oddi wrthyt ti. Nid oes dim i 'gystadlu â'm Iesu mawr'. Helpa fi i 'aros yn ei gariad ddyddiau f'oes', syllu arno, a chael fy nhrawsffurfio wrth i ddelw Iesu ddisgyn arnaf. Yn ei enw ef. Amen.